

**Vaughan Gething AC/AM**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau**  
**Cymdeithasol**  
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/1287/18

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

31 Mai 2018

Annwyl Mr Ramsay,

**ADRODDIAD RHEOLI MEDDYGINIAETHAU Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS –  
YMATEB PELLACH**

Yn dilyn fy ymateb i'r adroddiad uchod a gyflwynwyd i'r Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mai, mae'n bleser gennyr amgáu diweddariad ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn yr adroddiad Rheoli Meddyginaethau ym Meysydd Gofal Sylfaenol cc Eilaidd.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb wedi'i ddiweddaru i'r argymhellion a gynhwysir yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n dwyn y teitl rheoli meddyginaethau ym meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd**

Argymhellion Archwilydd Cyffredinol Cymru	Ymateb Llywodraeth Cymru	Y Sefyllfa Bresennol
Dylai Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a'r holl gyrrf iechyd gytuno ar gynllun manwl â chyfngiad amser ar gyfer cyflwyno systemau rhagnodi electronig ym maes gofal eilaidd, ynghyd â phroses eglur ar gyfer monitro darpariaeth y cynllun.	<p>Derbyniwyd.</p> <p>Sefydlodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru brosiect Rhagnodi a Rhoi Meddyginaethau yn Electronig mewn Ysbytai yng Nghymru er mwyn datblygu a gweithredu'r cynllun cenedlaethol ar gyfer rhagnodi electronig ym maes gofal eilaidd a chynhaliwyd cyfarfod cyntaf bwrdd y prosiect ar 23 Tachwedd 2016.</p> <p>Ar hyn o bryd mae tîm y prosiect yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddiffinio union gwmpas y prosiect a'r anghenion o ran y system. Ar ôl gwneud hyn bydd y Gwasanaeth Gwybodeg yn cwblhau'r achos busnes dros gaffael system fferylliaeth ysbytai newydd a datrysiaid i ragnodi a rhoi meddyginaethau yn electronig, a bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn. Yn ddibynnol ar gwblhau'r achos busnes, disgwyli'r bydd y systemau hyn wedi'u caffaer yn ystod 2018-19 ac y cychwynnir eu rhoi ar waith ar ddechrau 2019.</p>	Cyfeiriaf aelodau'r pwyllgor at yr ymateb a roddais yn fy llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, dyddiedig 2 Mai.

<p>Dylai Prif Swyddog Fferyllol Cymru arwain adolygiadau cenedlaethol i asesu cydymffurfiad pob corff iechyd â'r polisi MARRS, i asesu effeithiolrwydd y rhaglen hyfforddiant gorfodol newydd ar reoli meddyginaethau ac i asesu cynaliadwyedd hirdymor camau a gymerwyd ym mhob corff iechyd i roi sylw i'r holl ganfyddiadau sy'n gysylltiedig â meddyginaethau o Ymddiried mewn Gofal; a</p> <p>Dylai pob corff iechyd ddatblygu cynllun â chyfyngiad amser ar gyfer gwella storio a diogelwch meddyginaethau ar wardiau ysbyty, gan gynnwys ystyriaeth benodol o fanteision cyflwyno peiriannau gwerthu awtomatig.</p>	<p>Derbyniwyd.</p> <p>Bydd Prif Swyddog Fferyllol Cymru yn ailgynnnull y gweithgor Rhoi, Cofnodi, Adolygu a Storio Meddyginaethau (MARRS) er mwyn cynnal adolygiad o gydymffurfiad pob corff iechyd â'r polisi MARRS. Oherwydd amgylchiadau annisgwyl bu oedi wrth weithredu'r rhaglen e-ddysgu ar roi meddyginaethau. Bydd y gweithgor felly yn ystyried ymhellach sut y gellir cyflwyno'r rhaglen e-ddysgu yn y modd mwyaf effeithiol. Rhagwelwn y bydd cyfarfod cyntaf y gweithgor MARRS, ar ôl ei ailgynnnull, yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2017 ac y bydd yn cwblhau ei adolygiad erbyn mis Mawrth 2019.</p> <p>Cyflwynodd yr <a href="#">Hysbysiad Diogelwch Cleifion PSN 030</a>, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016, y safonau disgwyliedig ar gyfer storio meddyginaethau yn ddiogel ar wardiau ysbytai. Rydym wedi nodi'r angen i adolygu'r gofynion sydd yn yr hysbysiad yng ngoleuni pryderon y byddai'r gost o ddisodli'r cyfleusterau storio ar bob ward ysbyty, waeth beth fo'u cyflwr presennol, yn anghymesur â'r budd a ragwelir yn sgil gwneud hynny; o ystyried y lefel isel o risg sydd i'r cyfleusterau storio ar y rhan fwyaf o wardiau. Bydd y gweithgor MARRS, fel</p>	<p><u>Adolygiad cenedlaethol i asesu cydymffurfiad pob corff iechyd â'r polisi MARRS</u></p> <p>Cafodd y gweithgor Rhoi, Cofnodi, Adolygu a Storio Meddyginaethau (MARRS) ei ailgynnnull yn 2017 er mwyn cynnal adolygiad o gydymffurfiad pob corff iechyd â'r polisi MARRS Cymru Gyfan.</p> <p>Mae'r gweithgor MARRS wedi datblygu asesiad o gydymffurfiad a ddosbarthwyd i bob bwrdd iechyd, Canolfan Ganser Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddiwedd 2017; cyflwynwyd yr asesiadau wedi'u cwblhau i'r gweithgor ym mis Ionawr 2018.</p> <p>Mae gweithgor MARRS wrthi'n adolygu'r asesiad a'r dystiolaeth ategol a gyflwynwyd gan bob corff iechyd cyn penderfynu a oes angen unrhyw gamau pellach.</p> <p><u>E-ddysgu MARRS</u></p> <p>Cyflwynwyd y rhaglen e-ddysgu MARRS ar roi meddyginaethau i holl weithwyr y GIG sy'n ymwneud â rhoi meddyginaethau drwy'r Cofnod Staff Electronig ym mis Ebrill 2018.</p>
--	---	--



	<p>rhan o'i waith, yn adolygu PSN 030 a chaiff canllawiau eu diweddar a'u cyhoeddi cyn diwedd 2017.</p> <p>Bydd y Prif Swyddog Fferyllol, ar y cyd â Phrif Fferyllwyr byrddau iechyd lleol a Chanolfan Ganser Felindre, yn cwblhau archwiliad o'r defnydd presennol o beiriannau gwerthu awtomatig ar wardiau yn ysbytai'r GIG yng Nghymru ac yn datblygu rhestr yn blaenoriaethu'r safleoedd ble y dylid defnyddio periannau gwerthu awtomatig ar wardiau. Caiff y gwaith hwn ei gwblhau erbyn mis Mehefin 2017.</p>	<p><u>Gwella storio meddyginaethau</u></p> <p>Mae gweithgor MARRS wedi adolygu'r Hysbysiad Diogelwch Cleifion PSN 030, sy'n amlinellu'r safonau disgwyliedig ar gyfer storio meddyginaethau yn ddiogel ar wardiau ysbytai. Mae'r gweithgor yn ystyried a fyddai'r gost sylwedol o adnewyddu'r cyfleusterau storio ar bob ward ysbyty, waeth beth fo'u cyflwr presennol, yn anghymesur â'r budd a ragwelir yn sgil gwneud hynny. Er mwyn blaenoriaethu adnewyddu'r cyfleusterau storio ar wardiau ysbytai, mae'r gweithgor wrthi'n adolygu PSN 030 i cyflwyno'r gofyniad i gyrrff y GIG fabwysiadu dull safonedig o gynnal asesiadau risg o gyfleusterau storio.</p> <p>Gwnaed cyfrif stoc o'r defnydd presennol o beiriannu gwerthu awtomatig ar wardiau yn ysbytai'r GIG yng Nghymru ym mis Chwefror 2017. (atodiad A). Yn dilyn hyn lluniodd Grŵp Cymheiriaid Prif Fferyllwyr y GIG restr yn blaenoriaethu'r safleoedd y dylid buddsoddi ynddynt.</p> <p>Yn fy ymateb diweddar, cynghorais aelodau'r pwyllgor i gynnal gweithdy ar beiriannau gwerthu awtomatig ar wardiau, wedi'i drefnu gan Grŵp Cymheiriaid Prif Fferyllwyr y GIG. Digwyddyd hyn ym mis Tachwedd 2017 ac roedd yn</p>
--	---	--

		cynnwys ystod eang o randdeiliaid o holl gyrrff y GIG yng Nghymru. Atodir adroddiad cryno o'r gweithdy gyda'r ymateb yma. (atodiad B).
--	--	--

<p>Dylai cyrff iechyd sicrhau bod eu Prif Fferyllydd yn gyfarwyddwr gweithredol neu'n atebol i un yn uniongyrchol ac yn rheolaidd; a</p> <p>Dylai fod gan gyrff iechyd eitem agenda flynyddol yn y Bwrdd i drafod adroddiad blynnyddol sy'n trafod gwasanaethau fferylliaeth, rheoli meddyginaethau, rhagnodi gofal sylfaenol, gwasanaethau meddyginaethau gofal cartref a chynnydd o ran rhoi sylw i'r materion a nodwyd yn Ymddiried mewn Gofal.</p>	<p>Derbyniwyd yn rhannol.</p> <p>Rydym yn cytuno'n llwyr y dylai Bwrdd pob corff iechyd yng Nghymru graffu'n rheolaidd ar bob agwedd ar reoli meddyginaethau. I'r perwyl hwnnw, a chyn cyhoeddi eich adroddiad, yn 2016-17 cynhwyswyd chwe dangosydd rhagnodi cenedlaethol gennym, yn cwmpasu ystod o feisydd gan gynnwys rhagnodi gwrthficrobaidd, adrodd ar adweithiau niweidiol i gyffuriau, meddyginaethau risg uchel a defnydd effeithlon o adnoddau, yn Fframwaith Canlyniadau'r GIG.</p> <p>Er mwyn parhau i ganolbwytio ar wella rheoli meddyginaethau o fewn GIG Cymru, byddwn yn parhau i ddatblygu dangosyddion rheoli meddyginaethau fel rhan o'r fframwaith canlyniadau. Byddwn hefyd yn codi materion yn ymwneud â rheoli meddyginaethau drwy gyfrwng cyfarfodydd y Tîm Gweithredol ar y Cyd rhwng Llywodraeth Cymru a chyrrf GIG Cymru.</p> <p>Mae'r rhaglen ail-gydbwyso deddfwriaeth</p>	<p>Mae'r rhaglen ail-gydbwyso deddfwriaeth meddyginaethau a rheoleiddio fferyllol ar draws y DU, a gefnogir gan yr Adran Iechyd yn Lloegr ar ran y pedair gweinyddiaeth yn y DU, yn ystyried nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth meddyginaethau sy'n debygol o gael effaith ar rôl Prif Fferyllwyr cyrff iechyd. Rhagwelwn y bydd ymgynghoriad ar y newidiadau deddfwriaethol sy'n berthnasol i'r Prif Fferyllwyr yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2018. Gan ragweld y newidiadau hyn, cynhaliwyd archwiliad o drefniadau cofnodi Prif Fferyllwyr y GIG yn 2017.</p> <p>Fel yr amlinellais yn fy ymateb diweddar, rydym wedi gofyn i Grŵp Strategaeth Meddyginaethau Cymru Gyfan ymgymryd â'r gwaith i lywio a datblygu ei adroddiad blynnyddol ac i adrodd yn chwarterol ar y datblygiadau yn erbyn dangosyddion rhagnodi cenedlaethol i sicrhau bod y cynnwys a'r fformat yn fwy perthnasol a hygyrch i aelodau o Fyrddau cyrff y GIG. Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn i adroddiad blynnyddol 2018-19 Grŵp Strategaeth Meddyginaethau Cymru Gyfan gael ei gyhoeddi.</p>
--	---	---

	<p>meddyginaethau a rheoleiddio fferyllol ar draws y DU, a gefnogir gan yr Adran lechyd yn Lloegr ar ran y pedair gweinyddiaeth yn y DU, yn ystyried nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth meddyginaethau sy'n debygol o gael effaith ar rôl Prif Fferyllwyr cyrff iechyd. Nid ydym yn ystyried y byddai'n briodol inni ymrwymo o ran y trefniadau adrodd ar gyfer Prif Fferyllwyr nes bydd canlyniad y rhaglen honno'n hysbys. Disgwylion y bydd y goblygiadau i Brif Fferyllwyr yn gliriach ar ddechrau 2018. I baratoi ar gyfer hyn byddwn yn cynnal archwiliad o'r trefniadau adrodd ar gyfer Prif Fferyllwyr y GIG yng Nghymru. Bydd hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2017.</p>	<p>At hynny, bydd dangosyddion rheoli meddyginaethau yn parhau i ffurfio rhan o Fframwaith Cyflawni GIG Cymru gyda chyrrf y GIG yn atebol am berfformiad yn erbyn y fframwaith drwy gyfarfodydd y Tîm Gweithredol ar y Cyd.</p>
Dylai Prif Fferyllwyr geisio cefnogaeth Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygiad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gryfhau dulliau mapio adnoddau cyfredol i hwyluso cymariaethau cadarn o lefel staffio fferylliaeth ledled Cymru ac i lunio manyleb gwasanaeth gyffredinol. Dylai'r fanyleb nodi'r adnoddau nodweddiadol sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau fferylliaeth allweddol, fel mewnbown fferylliaeth glinigol ac addysg	<p>Derbyniwyd.</p> <p>Yn ystod 2017-18 byddwn yn gweithio gyda Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Phrif Fferyllwyr cyrff GIG Cymru i gynnal asesiad cadarn o'r anghenion ar gyfer y gweithlu fferyllol nawr ac yn y dyfodol. Caiff y gwaith hwn ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2018.</p>	<p>Nodaf fod yr argymhelliaid hwn wedi'i anelu at Brif Fferyllwyr y GIG a Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.</p> <p>Deallaf fod Grŵp Cymheiriaid Prif Fferyllwyr GIG wedi sefydlu grŵp moderneiddio'r gweithlu i ddatblygu'r argymhelliaid a materion eraill yn ymwneud â'r gweithlu fferyllol.</p> <p>Yn ystod 2018-19, bydd y grŵp hwn yn cefnogi'r ymgyrch hyfforddi, gweithio, byw sydd wedi'i cynllunio ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol; yn cynhyrchu model gweithlu lefel uchel ar gyfer</p>

cleifion ar y wardiau. Dylai'r fanyleb hefyd fod yn ddigon hyblyg i gydnabod y bydd gwahanol fathau o wardiau angen gwahanol lefelau o adnoddau.		gwasanaethau fferyllol; ac yn cyflawni dadansoddiad o ddata gweithlu fferyllol cyfredol.
--	--	--

<p>Er mwyn ysgogi gwelliannau pellach i ragnodi, dylai cyrff iechyd sicrhau bod ganddynt gynllun gweithredu wedi'i dargedu i sicrhau gwelliannau i gost ac ansawdd rhagnodi ym meysydd gofal sylfaenol a gofal eilaidd, yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. Dylai'r cynllun gweithredu gael ei hysbysu gan ddadansoddiad rheolaidd o ddata rhagnodi i sicrhau bod sylw'n canolbwytio ar y meysydd lle ceir y mwyaf o gyfle i sicrhau gwelliannau o ran cost ac ansawdd;</p> <p>Yn unol â'r angen i gynyddu proffil rheoli meddyginaethau ar lefel y Bwrdd, dylai cyrff iechyd sicrhau bod perfformiad yn erbyn Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol yn cael ei ystyried yn rheolaidd gan y Bwrdd, ynghyd</p>	<p>Derbyniwyd.</p> <p>Mae'r Grŵp Effeithlonwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella wedi cytuno y bydd dull Cymru gyfan tuag at wella cost ac ansawdd mewn rheoli meddyginaethau ym meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd yn faes allweddol ar gyfer 2017-18.</p> <p>Yn 2017-18 byddwn yn cytuno gyda Phrif Fferyllwyr byrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill ar flaenoriaethau allweddol yn y chwemaes canlynol: ysgogi effeithlonwydd; lleihau niwed yn gysylltiedig â meddyginaethau; gwella profiad a chanlyniadau i'r claf; moderneiddio'r gweithlu; cydweithredu, gwell defnydd o dechnoleg ac ystadau gwell; a meincnodi. Caiff y blaenoriaethau hyn eu datblygu dros Gymru gyfan a chaiff y cynnydd arnynt ei oruchwyliau drwy gyfrwng cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Prif Swyddog Fferyllol a Phrif Fferyllwyr y byrddau iechyd, a</p>	<p><u>Codi proffil rheoli meddyginaethau ar lefel Bwrdd</u></p> <p>Fel yr amlinellais uchod, yn ystod 2018-2019 bydd Grŵp Strategaeth Feddyginaethau Cymru Gyfan ymgymryd â'r gwaith o hysbysu a datblygu ei adroddiadau cyfredol gan gynnwys y rheiny sy'n manylu ar berfformiad yn erbyn dangosyddion rhagnodi cenedlaethol i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio gan Fyrddau cyrff y GIG.</p> <p><u>Goruchwlio'r datblygiad i wella effeithlonwydd rhagnodi</u></p> <p>Yn ystod 2017-18 cymerodd y Grŵp Effeithlonwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella gamau i wella cost ac ansawdd mewn rheoli meddyginaethau ym meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd. Yn benodol hwylusodd y grŵp welliannau sylweddol o safbwyt cyfleoedd o werth mawr gan gynnwys cynnydd yn y defnydd o feddyginaethau biodebyg, cynyddu</p>
--	--	---

<p>â chynnydd o ran cyflawni gwelliannau ehangach o ran cost ac ansawdd rhagnodi gofal sylfaenol; Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwaith y Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella yn mabwysiadu safbwyt Cymru gyfan ar welliannau cost ac ansawdd y dylai fod modd eu cyflawni trwy ragnodi a rheoli meddyginaethau gwell, a'i fod yn defnyddio dulliau fel y cyfarfod Tîm Gweithredol ar y Cyd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn rhwng swyddogion Llywodraeth a phob corff iechyd unigol i i sicrhau bod y cynnydd angenreidiol yn cael ei wneud o ran cyflawni'r gwelliannau hyn. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrrf y GIG i ddatblygu a chyflwyno cynllun gweithredu cenedlaethol eglur sydd â'r nod o leihau gwastraff meddyginaethau, gan adeiladu ar y canfyddiadau o'r gwerthusiad parhaus o ymgrych Eich Moddion, Eich Iechyd. Mae lleihau gwastraff yn arwain at arbedion cost gan helpu cleifion i gymryd eu meddyginaethau fel y'u rhagnodwyd ar yr un pryd, sy'n eu</p>	<p>chyfarfodydd y Tîm Gweithredol ar y Cyd. Byddwn yn gweithio gyda chyrrf y GIG i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu cenedlaethol clir sydd â'r nod o leihau gwastraff meddyginaethau. Yn anad dim, cyflawnir hyn drwy annog cyrrf y GIG i fabwysiadu'r elfennau hynny o'r ymgrych <i>Eich Moddion, Eich Iechyd</i> a bydd y gwerthusiad sy'n mynd rhagddo, ar ôl gorffen, yn dangos eu bod yn llwyddiannus. Byddwn hefyd yn annog y byrddau iechyd i roi ar waith ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer lleihau gwastraff meddyginaethau. Bydd y rhain yn cynnwys rhoi gwell systemau ar gyfer rhagnodi ailadroddus ar waith, fel y rhai a browyd drwy gyfrwng y Grŵp Gweithredu Rhagnodi Darbodus neu a werthuswyd mewn rhannau eraill o'r DU. Rhagwelwn y bydd y gwaith hwn yn cychwyn yn 2017-18 ac y cytunir ar gynllun â chyfyngiad amser erbyn mis Mawrth 2018.</p>	<p>presgripsiynau pregabalin generig a chwtogi'r defnydd o co-proxamol ar draws y byrddau iechyd i gyd.</p> <p>Yn ychwanegol at oruchwyliaeth y Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella, mae cyrrf y GIG wedi sefydlu Grŵp Fferyllol a Chyllid Cymru Gyfan ar y Cyd sy'n cwrdd yn fisol i glustnodi, rhannu a datblygu effeithlonrwydd cyfleoedd rhagnodi yn seiliedig ar Gymru gyfan. Mae Grŵp Cymheiriaid Prif Fferyllwyr wedi datblygu, wedi cyrraedd cytundeb ac yn gweithredu'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol.</p> <p><u><b>Ymgrych Genedlaethol i leihau gwastraff meddyginaethau</b></u></p> <p>Mae adroddiad <i>Rheoli Meddyginaethau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus</i> yn cynnwys argymhellion tebyg, ac rwyf wedi ymateb drwy gadarnhau y bydd arian ar gael i'r byrddau iechyd yn 2018-19. Bydd y cyllid yn cefnogi gweithgareddau lleol i hybu elfennau mwyaf llwyddiannus ymgrych Eich Moddion Eich Iechyd. Yn fy ymateb i'r Pwyllgor rwy'n amlinellu fy ymrwymiad i ddarparu diweddarriad ar y gwaith a wneir gan y byrddau iechyd i wella archebu rhagnodi ailadroddus, yn 2019.</p>
--	--	---

helpu i sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r feddyginaeth; ac Yn gysylltiedig â'r pwyntiau uchod, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun eglur â chyfngiad amser ar waith i gyflwyno sustemau gwell ar gyfer rhagnodi ailadroddus sy'n cael eu profi gan y Grŵp Gweithredu Rhagnodi Darbodus.		
---	--	--

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun, mewn partneriaeth â'r Grŵp Strategaeth Meddyginaethau Cymru Gyfan, cyrff iechyd a meddygon, i esblygu'r Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol fel eu bod yn dechrau ystyried mesurau o ba un a yw'r cleifion priodol yn derbyn y meddyginaethau priodol a pha un a yw meddyginaethau yn gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau pobl.	<p>Derbyniwyd.</p> <p>Rydym yn cytuno bod y Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol ar hyn o bryd yn canolbwytio'n ormodol ar faint o feddyginaethau a ragnodir a'u cost, a bod yr ystyriaeth a roddir i briodoldeb clinigol a chanlyniadau yn annigonol. Mae argaeedd data i gefnogi dangosyddion mwy sensitif wedi bod yn rhwystr sylweddol.</p> <p>Er bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i leihau amrywiadau mewn rhagnodi, mae'r gwelliannau wedi arafu yn y blynnyddoedd diwethaf yn rhannol o ganlyniad i'r dull hwn o weithio. Byddwn yn gweithio gydag Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru i sefydlu prosiect yn 2017-18 a fydd â'r diben o ddiffinio cyfres newydd o Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol</p>	<p>Yn unol â'r ymrwymiadau a gafwyd mewn ymateb i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, gwahoddwyd Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru i gychwyn prosiect yn 2017-18 fydd â'r diben o ddiffinio cyfres newydd o Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol gan ddefnyddio ffynonellau data ychwanegol.</p> <p>Yn dilyn y gwaith hwnnw, cymeradwyodd Grŵp Strategaeth Meddyginaethau Cymru Gyfan 12 o ddangosyddion diogelwch rhagnodi newydd sy'n cyfuno gwybodaeth o systemau practisiau meddygon teulu, yn y cyfarfod ar 14 Chwefror 2018. Ceir manylion am y dangosyddion hyn yn atodiad C.</p>
--	---	---

	gan ddefnyddio ffynonellau data ychwanegol. Caiff y dangosyddion hyn eu datblygu yn 2017-18 gyda'r bwriad y cânt eu cymeradwyo gan Grŵp Strategaeth Meddyginaethau Cymru Gyfan cyn dechrau eu defnyddio yn Ebrill 2018.	
--	---	--

Dylai Pwyllgor Prif Fferyllwyr Cymru Gyfan arwain archwiliad cenedlaethol o gydymffurfiad â'r mesurau a nodir yn llawlyfr Cymru gyfan ar ddiogelwch a darpariaeth effeithiol gwasanaethau gofal cartref.	<p>Derbyniwyd.</p> <p>Nodwn fod yr argymhelliaid hwn wedi'i anelu at Bwyllgor Prif Fferyllwyr Cymru Gyfan. Byddwn yn sicrhau bod gwaith i wella darpariaeth ddiogel ac effeithiol gwasanaethau gofal cartref, gan gynnwys archwiliad o gydymffuriaeth â'r meysydd a nodir yn llawlyfr Cymru gyfan, yn rhan o'r blaenoriaethau allweddol y cytunir arnynt gyda Phrif Fferyllwyr y byrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill yn 2017-18.</p>	<p>Nodaf fod yr argymhelliaid hwn wedi'i anelu at Brif Fferyllwyr y GIG.</p> <p>Deallaf fod Grŵp Cymheiriaid Prif Fferyllwyr y GIG wedi sefydlu ffrwd waith gofal cartref o dan ei Grŵp Cynghori ar Gaffael a Logisteg Meddyginaethau. Mae'r grŵp wedi gweithio gydag arweinwyr i roi'r gwelliannau i reolaeth gofal cartref ar waith gan fynd i'r afael â'r bylchau a glustnodwyd yn erbyn safonau gofal cartref y byrddau iechyd unigol.</p> <p>Er mwyn gwella'r ddarpariaeth ddiogel ac effeithiol o wasanaethau gofal cartref ymhellach datblygwyd y camau isod ar lefel genedlaethol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Cwblhawyd cytundeb fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer gwasanaethau gofal cartref meddyginaeth technoleg Isel a Chanolig a'i roi ar waith ym mis Mai 2018;</li><li>• Datblygwyd cytundeb lefel gwasanaeth sengl ar draws GIG Cymru ar gyfer cynlluniau gofal cartref a ariennir gan y diwydiant fferyllol; a</li><li>• Datblygwyd cymorth rheoli contractau,</li></ul>
--	--	---

		gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol gan Bartneriaeth Cydwlasanaethau GIG Cymru
--	--	---

<p>Dylai Llywodraeth Cymru, gyda chymorth gan 1000 o Fwydau a Mwy, weithio gyda thimau fferyllol, staff codio clinigol a chlinigwyr ledled Cymru i ddatblygu rhaglen sydd â'r nod o nodi ac atal derbyniadau sy'n gysylltiedig â meddyginaeth.</p>	<p>Derbyniwyd.</p> <p>Bydd cwmpas y gwaith hwn yn cael ei bennu ar y cyd â 1000 o Fwydau - Gwasanaeth Gwella yn rhan gyntaf 2017-18 gyda'r bwriad o sefydlu rhaglen diogelwch meddyginaeth yn 2018-19.</p>	<p>Mae gweithgor oes fer sy'n cynnwys arbenigwyr diogelwch meddyginaethau o bractisau a'r byd academaidd ledled Cymru wedi cwrdd â mi i'm cynghori am y dull gweithredu cyffredinol a'r rhaglen fydd eu hangen i ysgogi gweliannau ym maes diogelwch meddyginaethau yn y GIG yng Nghymru. Byddaf yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar eu cyngor yn ddiweddarach yn 2018.</p>
<p>Dylai Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru barhau i weithio gyda chynrychiolwyr meddygol teulu i sicrhau y rhoddir sylw i'w pryderon am lywodraethu gwybodaeth;</p> <p>Hwyluso mynediad ehangach at y Cofnod Meddygon Teulu fel y gall yr holl fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sy'n darparu gwasanaethau clinigol ar y wardiau gael mynediad at y system ar gyfer cleifion a dderbynir ar gyfer triniaeth ddewisol, yn ogystal â'r rhai a dderbynir fel achosion brys; a</p> <p>Hwyluso mynediad ehangach at y Cofnod Meddygol Teulu, a defnydd</p>	<p>Derbyniwyd.</p> <p>Rydym yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i sicrhau mynediad ehangach i Gofnod Meddygon Teulu Cymru. Ar 21 Tachwedd 2016, cyhoeddodd y Gwasanaeth Gwybodeg y câi mynediad i Gofnod Meddygon Teulu Cymru ei ehangu i fferyllwyr ysbytai a thechnegwyr fferyllol mewn lleoliadau gofal wedi'i gynllunio, gan gynnwys adrannau cleifion allanol. Mae hyn yn adeiladu ar y mynediad mewn lleoliadau gofal brys sydd ar gael ers peth amser.</p> <p>Mae'r Prif Swyddog Fferyllol yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r Cyfarwyddwr Meddygol yn y Gwasanaeth Gwybodeg i roi trefniadau llywodraethu gwybodaeth briodol ar waith a</p>	<p>Ers mis Tachwedd 2016, mae'r fferyllwyr a'r technegwyr fferyllol sy'n gweithio yn ysbytai Cymru wedi cael mynediad llawn i Gofnod Meddygon Teulu Cymru mewn lleoliadau gofal wedi'i gynllunio a gofal brys.</p> <p>Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddais y câi'r mynediad i Gofnod Meddygon Teulu Cymru ei ehangu i ddechrau i'r fferyllwyr cymunedol sy'n darparu gwasanaeth cyflenwi meddyginaethau brys i'r GIG. Cwblhawyd cynllun peilot o fynediad i Gofnodion Meddygon Teulu Cymru ar gyfer fferyllfeydd cymunedol ac mae cynlluniau ar waith i'w gyflwyno i bob fferyllfa erbyn diwedd 2018-19.</p>

<p>ehangach ohono, mewn fferyllfeydd cymunedol, fel y gellir rheoli meddyginaethau cleifion yn y gymuned heb fod rhaid iddynt fynd at feddyg teulu neu wasanaethau GIG eraill, pan fo hynny'n glinigol briodol.</p>	<p>fydd yn caniatáu i fferyllwyr cymunedol ddefnyddio'r Cofnod Meddygon Teulu mewn amgylchiadau penodol i gefnogi gofal i'r claf.</p> <p>Rhagwelwn y bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cwblhau'r gwaith ar ddechrau 2019.</p>	
<p>Pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad i wneud meddyginaeth newydd ar gael y tu allan i'r broses werthuso genedlaethol bresennol, dylai esbonio'n eglur y rhesymeg sy'n sail i'w phenderfyniad a sicrhau y rhoddir digon o amser i gyrrff iechyd gynllunio ar gyfer y goblygiadau ariannol a'r newidiadau i wasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r meddyginaethau newydd hynny.</p>	<p>Derbyniwyd.</p> <p>Rydym yn falch bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cydnabod y gallai fod yn anghenrheidiol, o bryd i'w gilydd, i Lywodraeth Cymru sicrhau bod meddyginaethau ar gael y tu allan i'r broses werthuso genedlaethol bresennol.</p> <p>Cydnabyddwn mai dan amgylchiadau eithriadol y dylai hyn ddigwydd a hynny'n unig pan fo'r sail resymegol dros wneud hynny'n glir.</p> <p>Yn yr un modd â gyda chytundebau hyd yma, disgwyliwn y bydd cytundebau'n parhau i gael eu gwneud dim ond pan fo cefnogaeth gref gan glinigwyr a chleifion ledled Cymru y dylai'r feddyginaeth/meddyginaethau fod ar gael. Fodd bynnag byddwn, o hyn allan ac ar gyfer pob cytundeb yn y dyfodol, yn sicrhau bod cyrff y GIG yn ymwneud yn fwy â'r trefniadau cynllunio ac yn cael</p>	<p>Gallaf gadarnhau nad oes dim trefniadau o'r fath wedi'u gwneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol Cymru gyhoeddi ei adroddiad.</p>

	amser priodol i baratoi ar gyfer goblygiadau i wasanaethau a'r goblygiadau ariannol.	
--	--	--

Health Board	Hospital site	Total number of wards on site	assessment of the total automated vending	wards with automated vending number of wards where	to have automated ward automated vending	of wards with automated vending	locations with automated vending currently	ward) locations planned to other (non ward) have automated vending locations with automated		
								automated vending required (Feb 2017)	vending by April 2017 (April 2017)	required (e.g. ED, MAU, Theatres etc)
Betsi Cadwaladr University	Wrexham Maelor	34	34	15	5	20	9	2	2	4
Betsi Cadwaladr University	Chirk Hospital	1	1	0	0	0	0	0	0	0
Betsi Cadwaladr University	Deeside Hospital	2	2	0	0	0	1	0	0	0
Betsi Cadwaladr University	Mold Hospital	2	2	0	0	0	0	0	0	0
Betsi Cadwaladr University	Glan Clwyd Hospital	29	27	10	14	24	9	8	1	9
Betsi Cadwaladr University	Bryn Hesketh	1	1	0	1	1	0	0	0	0
Betsi Cadwaladr University	Ruthin Community Hospital	1	1	0	0	0	0	0	0	0
Betsi Cadwaladr University	Holywell CH	2	2	0	0	0	0	0	0	0
Betsi Cadwaladr University	Denbigh CH	2	2	0	0	0	0	0	0	0
Betsi Cadwaladr University	Abergele	1	1	0	0	0	0	0	0	0
Betsi Cadwaladr University	Colwyn Bay CH	2	2	0	0	0	1	1	1	2
Betsi Cadwaladr University	Ysbyty Gwynedd	28	28	13	1	14	4	2	2	4
